



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Teitl
Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Adran:

Adran
Cymunedau a Threchu Tlodi

Ysgrifennydd y Cabinet/Y Gweinidog cyfrifol:

Ysg y Cab
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AC

Dyddiad Cychwyn:

Dyddiad Cychwyn
10 Rhagfyr 2018

Cyfeiriad cyswllt e-bost:

Cyfeiriad e-bost
EqualityBranch@gov.wales

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried a pham?

Mae cynllun y Genedl Noddfa yn awyddus i herio'r gwahaniaethu mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ei wynebu, a sicrhau cyfle cyfartal (lle bo modd o fewn cyfraith mewnfudo'r DU) a hyrwyddo perthynas dda rhwng y grwpiau hyn ac eraill mewn cymdeithas. Cyflawnir yr amcanion hyn trwy amrywiaeth o gamau gweithredu sy'n ceisio mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi anghydraddoldeb a lliniaru rhai o'r effeithiau.

Mae cyfrifoldeb am loches a mewnfudo yn nwylo Llywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, ni allwn reoli rhai o'r dylanwadau allweddol ar gyfer atal canlyniadau niweidiol, megis gwneud penderfyniadau prydlon a da ar achosion lloches, sicrhau llety o ansawdd da a darparu a chynnig cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn integreiddio'n llwyddiannus, bydd rhaid cael ymdrech gytûn ar ran Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cymdeithasol Cymru a chymunedau Cymru.

Mae pob un o'r camau gweithredu yng nghynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru yn cyfateb i themâu a blaenoriaethau Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol ac, o ganlyniad, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig Cymru fwy cyfartal, o gymunedau cydlynus sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r camau hefyd yn cysylltu'n agos â Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20. Mae'r cynllun wedi ei ddsbarthu o dan bedair thema allweddol Ffyniant i Bawb ac mae'n cynnwys colofn i gysylltu pob cam ag amcanion perthnasol o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ategu ein dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau Cymru decach. Rydym ni'n gweithio ochr yn ochr â'r rhai sydd wedi byw'r profiad o anghydraddoldeb ac anfantais ac yn gwrando arny'n nhw, gan wneud pethau gyda nhw yn hytrach nag iddyn nhw ac ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y bobl a fydd yn cael eu heffeithio gan ein cynlluniau yn cael eu cynnwys ym mhob cam o'u datblygiad. Mae hyn yn enghraifft bwysig o'r ffordd rydym ni'n rhoi'r Ddeddf ar waith.

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu drwy sicrhau cyfraniad agos ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu hunain, sefydliadau sy'n eu cefnogi, ac amrywiaeth o gyfrif cyhoeddus allweddol y mae eu gwaith yn effeithio'n uniongyrchol ar ein nod o sicrhau bod unigolion yn ailadeiladu eu bywydau a chyrraedd eu llawn botensial yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n gadarn ei barn y dylai integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddigwydd ar y diwrnod cyntaf y byddant yn cyrraedd. Mae'r dull hwn yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer unigolion a chymunedau.

Mae'r camau yn y cynllun hwn wedi'u bwriadu i ddarparu cefnogaeth holistig i unigolion a chymunedau yng Nghymru. Er enghraifft, mae cefnogi cynlluniau i ffoaduriaid wirfoddoli yn cyfrannu at gymdeithas Cymru, a hefyd yn cefnogi prosesau caffael iaith, lles iechyd meddwl a chyflogadwyedd unigolion. O ganlyniad, bydd camau yn y cynllun hwn yn atgyfnerthu'r ddwy elfen.

Wrth ddatblygu'r camau hyn, rydym wedi ceisio osgoi'r problemau niweidiol a brofir gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys digartrefedd, cyflyrau iechyd meddwl, llety gwael a'r perygl o amddifadedd. Eisoes, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da mewn rhai o'r meysydd hyn ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud o hyd i wella canlyniadau.

Nod y cynllun hwn yw gosod cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y cymunedau hyn tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn. Felly, mae'n rhan bwysig o nod hirdymor Cymru i fod yn Genedl Noddfa o'r iawn ryw ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Adlewyrchir y nod hwn yn yr enw newydd ar gyfer y cynllun hwn ac rydym yn annog sefydliadau eraill (Cyhoeddus a Phreifat) hefyd i ystyried pa gamau y gallan nhw eu cymryd gan gydweithio â

Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cysyniad o Gymru yn Genedl Noddfa.

Yn aml mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael problemau tebyg wrth gyrraedd Cymru, er eu bod yn dod o lawer o wahanol ddiwylliannau a gwledydd. Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y person sy'n sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio, waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau.

Disgwylir i'r camau yn y cynllun hwn gael effaith gadarnhaol ac atgyfnerthol ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Casgliad

1. Sut cafodd y bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Datblygwyd y cynllun yn dilyn Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd yn gofyn am farn ffoaduriaid a cheiswyr lloches wrth sefydlu cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru ei dilyn. Argymhelliad 1 oedd ailddatblygu'r cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Yn dilyn derbyn yr argymhelliad hwn, fe wnaethom ymgysylltu â thros 120 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, pedair ardal gwasgaru ceiswyr lloches a chyd-gynhyrchu cynllun drafft gyda sefydliadau sy'n cefnogi ffoaduriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Yn yr haf, fe wnaethom ymgysylltu'n eang ar y cynllun drafft, yn cynnwys gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches drwy'r Rhaglen Hawliau Lloches a noddir gan Lywodraeth Cymru. Hefyd fe wnaethom gynnwys safbwyntiau plant a phobl ifanc o waith cyfochrog a oedd ar y gweill gan Bartneriaeth Strategol Cymru ac o ymateb i ymgynghoriad gan TGP Cymru.

2. Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, y rhai cadarnhaol a negyddol?

Bwriad yr holl gynllun yw gwella canlyniadau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy herio gwahaniaethu, sicrhau cyfle cyfartal (lle mae modd gwneud hynny o fewn cyfraith mewnfudo'r DU) a hyrwyddo perthynas dda rhwng grwpiau. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r cynigion hyn.

Yn bwysicaf oll, mae'r cynllun yn ceisio dymchwel rhwystrau i geiswyr lloches ddefnyddio gwasanaethau, gwella cymorth cyflogadwyedd i ffoaduriaid, gwella integreiddio a gwybodaeth am hawliau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a lliniaru amddifadedd, salwch meddwl a digartrefedd.

Mae'r cynllun yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n ceisio defnyddio'r asedau fydd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd hyn yn darparu sgiliau ychwanegol i Gymru ac yn helpu i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.

3. Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig yn:

- sicrhau'r cyfraniad eithaf i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant;
- osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effaith negyddol?

Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ategu ein dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau Cymru decach. Rydym ni'n gweithio ochr yn ochr â'r rhai sydd wedi byw'r profiad o anghydraddoldeb ac anfantais ac yn gwranddo arnyn nhw, gan wneud pethau gyda nhw yn hytrach nag iddyn nhw ac ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y bobl a fydd yn cael eu heffeithio gan ein cynlluniau yn cael eu cynnwys ym mhob cam o'u datblygiad. Mae hyn yn enghraifft bwysig o'r ffordd rydym ni'n rhoi'r Ddeddf ar waith.

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu drwy sicrhau cyfraniad agos ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu hunain, sefydliadau sy'n eu cefnogi, ac amrywiaeth o gyrff cyhoeddus allweddol y mae eu gwaith yn effeithio'n uniongyrchol ar ein nod o sicrhau bod unigolion yn ailadeiladu eu bywydau a chyrraedd eu llawn botensial yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n gadarn ei barn y dylai integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddigwydd ar y diwrnod cyntaf y byddant yn cyrraedd. Mae'r dull hwn yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer unigolion a chymunedau.

Mae'r camau yn y cynllun hwn wedi'u bwriadu i ddarparu cefnogaeth holistig i unigolion a chymunedau yng Nghymru. Er enghraifft, mae cefnogi cynlluniau i ffoaduriaid wirfoddoli yn cyfrannu at gymdeithas Cymru, a hefyd yn cefnogi prosesau caffael iaith, lles iechyd meddwl a chyflogadwyedd unigolion. O ganlyniad, bydd camau yn y cynllun hwn yn atgyfnerthu'r ddwy elfen.

Wrth ddatblygu'r camau hyn, rydym wedi ceisio osgoi'r problemau niweidiol a brofir gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys digartrefedd, cyflyrau iechyd meddwl, llety gwael a'r perygl o amddifadedd. Eisoës, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da mewn rhai o'r meysydd hyn ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud o hyd i wella canlyniadau.

Nod y cynllun hwn yw gosod cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y cymunedau hyn tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn. Felly, mae'n rhan bwysig o nod hirdymor Cymru i fod yn Genedl Noddfa o'r iawn ryw ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Adlewyrchir y nod hwn yn yr enw newydd ar gyfer y cynllun hwn ac rydym yn annog sefydliadau eraill (Cyhoeddus a Phreifat) hefyd i ystyried pa gamau y gallan nhw eu cymryd gan gydweithio â Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cysyniad o Gymru yn Genedl Noddfa.

Yn aml mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael problemau tebyg wrth gyrraedd Cymru, er eu bod yn dod o lawer o wahanol ddiwylliannau a gwledydd. Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y person sy'n sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i sicrhau eu bod yn cael eu , waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau.

Disgwylir i'r camau yn y cynllun hwn gael effaith gadarnhaol ac atgyfnerthol ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

4. Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd yn ei flaen a phan ddaw i ben?

Bydd y cynllun yn cael ei fonitro yn fewnol bob blwyddyn ym mis Mai, cyn datganiad arferol y Gweinidog yn ystod yr wythnos ffoaduriaid ym mis Mehefin. Bydd y tîm Cydraddoldeb yn monitro cynnydd yn barhaus yn anffurfiol trwy gydol y flwyddyn a bydd yn edrych am gyfle i gydlynu diweddariadau gyda chomisiynau traws-lywodraethol eraill.

Bydd grŵp tystiolaeth ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael ei greu i'n helpu ni i nodi'n well yr effaith y bydd ein cynigion yn ei chael dros amser.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGI © Hawlfraint y Goron 2018

WG35774

Digital ISBN 978-1-78964-223-0